Cofnodion o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn y Neuadd Ddinesig, ar ddydd Gwener, Mai 26ain, 2006 am 6.45 p.m.

Presennol: Maer Cyng Colin Jenkins, Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Richard Wallace, Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Roy Davies,
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Cyng Pam Steane Price, Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid).

6802/ Mai/ 06 Anerchiad y Maer

Wnaeth y Maer, Cyng Colin Jenkins longyfarch Pwyllgor y Neuadd Ddinesig am wneud y Neuadd yn lle mor weithgar i'r Gymuned. Rhoddodd gofnod o'r holl ddigwyddiadau ac achlysuron y mae wedi'u mynychu ar ran y Cyngor. Diolchodd holl fudiadau Elusennol y Dref am eu holl waith caled, yn arbennig y Grŵp Tenovus am godi mwy na £20000.
Siaradodd am lwyddiannau'r Cyngor dros y flwyddyn, gan dynnu sylw yn arbennig at y Prosiect Treftadaeth, yn sicrhau arian i brosiect fydd yn hybu twristiaeth yn y dref.
O'r diwedd mae yna wyneb newydd yn cael ei roi ar Heol Orsaf wedi blynyddoedd o ymgyrchu.
Bydd y flwyddyn sydd i ddod yn un gyffrous wrth i'r Cyngor ymgymryd â phrosiect arall ar y cyd gyda Cambria i wella Neuadd y Sir. Bydd hyn yn golygu y bydd holl gofnodion Hanesyddol Sir Gaerfyrddin ar gael i'r cyhoedd. Gorffennodd trwy ddiolch i'r holl Feiri lleol am eu cyfeillgarwch yn ystod y flwyddyn.

6803 / Mai/ 06 Enwebiad ar gyfer Maer 2006-7

Cynigiwyd y Cyng Hugh Towns gan y Cyng Ros Bellamy. Eiliwyd hyn gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.
Derbyniwyd y swydd gan y Cyng Hugh Towns. Wnaeth ei Ddatganiad Derbyn.
Rhoddodd y Cyng Colin Jenkins y gadwyn i'r maer newydd. Cyflwynodd y Maer newydd Fedal i'r Cyn Faer.

6804 / Mai / 06 Anerchiad y Maer

Esboniodd y Cyng Hugh Towns pam y dewiswyd y Neuadd Ddinesig ar gyfer y Seremoni. Ei thema ar gyfer y flwyddyn yw un o Adfywio. Mae'r Neuadd Ddinesig yn enghraifft wych o brosiect a berchenogir gan y Gymuned ac a arweinir gan y Gymuned. Mae canran y rhai sy'n defnyddio'r neuadd eleni hyd at 30% yn fwy.
Roedd 27000 o bobl wedi defnyddio'r Neuadd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Bydd rhagor o waith atgyweirio yn cael ei wneud ac mae'r Cyngor Tref yn falch iawn o allu cynorthwyo'r pwyllgor gweithgar yn ariannol er mwyn galluogi i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

6805 / Mai / 06 Enwebiad ar gyfer Dirprwy Faer

Cynigiwyd y Cyng Richard Wallace gan y Cyng Ieuan Gwyn. Eiliwyd hyn gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Richard Wallace yr enwebiad gan dderbyn y swydd. Wnaeth y Maer ei arwisgo â Bathodyn.

6806 / Mai / 06 Gohirio Cyfarfod

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Gohiriwyd y cyfarfod gan y Maer i'w ail-gynnal yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Mehefin 7fed am 7.30 p.m.

.

.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk